**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1785 (Cy. 248) (C. 109)

# LLESIANT, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cychwyn) 2015

*Gwnaed - - - - 30 Medi 2015*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 56(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cychwyn) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Y diwrnod penodedig

**2.** 16 Hydref 2015 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym—

(a) adran 1 (trosolwg);

(b) adran 6 (ystyr "corff cyhoeddus");

(c) adran 10 (dangosyddion cenedlaethol ac adroddiad llesiant blynyddol);

(d) adran 14 (canllawiau);

(e) adran 17 (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru);

(f) adran 22(2) (dyletswydd i ddilyn argymhellion: canllawiau);

(g) adran 22(3) (dyletswydd i ddilyn argymhellion: ystyried canllawiau);

(h) adran 26 (panel cynghori);

(i) adran 27 (aelodau penodedig);

(j) adran 28 (talu treuliau aelodau'r panel);

(k) adran 40(7) (cynlluniau llesiant lleol: dyletswydd Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau);

(**1**) 2015 dccc 2.

(l) adran 40(8) (cynllluniau llesiant lleol: dyletswydd cynghorau cymuned i ystyried canllawiau);

(m) adran 51 (canllawiau);

(n) adran 52 (ystyr "corff cyhoeddus": darpariaeth bellach);

(o) Atodlen 2 (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

30 Medi 2015

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn darparu mai 16 Hydref 2015 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau'r Ddeddf a nodir yn yr erthygl honno ac y cyfeirir atynt isod:

adran 1 (trosolwg);

adran 6 (ystyr "corff cyhoeddus");

adran 10 (dangosyddion cenedlaethol ac adroddiad llesiant blynyddol);

adran 14 (canllawiau);

adran 17 (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru);

adran 22(2) (dyletswydd i ddilyn argymhellion: canllawiau);

adran 22(3) (dyletswydd i ddilyn argymhellion: ystyried canllawiau);

adran 26 (panel cynghori);

adran 27 (aelodau penodedig);

adran 28 (talu treuliau aelodau'r panel);

adran 40(7) (cynlluniau llesiant lleol: dyletswydd Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau);

adran 40(8) (cynlluniau llesiant lleol: dyletswydd cynghorau cymuned i ystyried canllawiau);

adran 51 (canllawiau);

adran 52 (ystyr "corff cyhoeddus": darpariaeth bellach);

Atodlen 2 (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).

Daeth adrannau 53 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc), 54 (rheoliadau), 55 (dehongli), 56 (cychwyn) a 57 (enw byr) i rym ar 30 Ebrill 2015.